# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 17.12.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Angela Russell ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn Bresennol:** Mr Chris O'Neil (ar ran yr ymgeisydd). Mr Aaron Thomas (Licence Trade United – arsylwi), Mr Michael Elderkin

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Diolchwyd i Gwenan Mai Williams am ei gwaith a'i chefnogaeth i'r Is-bwyllgorau Trwyddedu a dymunwyd pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Eglurwyd bod datganiad o gollfarnau yn cyfeirio at droseddau perthnasol ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd a / neu ei gynrychiolydd i ymhelaethu ar y cais. Cydnabuwyd bod y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd tros 24 mlynedd yn ôl ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau ers hynny. Ymhelaethwyd bod yr ymgeisydd eisiau gweithio a'i fod wedi cael cynnig swydd 15 awr yr wythnos dan drefniant y Ganolfan Waith gyda chwmni lleol.

Cydnabuwyd  Mr Elderkin mai ef fydd y cyflogwr ac ei fod o’r farn bod yr ymgeiydd yn haeddu ail gyfle.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a’i gynrychiolydd o’r siambr tra y bu i aelodau’r Is-bwyllgor drafod y cais.

Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor ei bod yn briodol caniatáu y cais. ‘Roedd y drosedd olaf a ddatgelwyd wedi digwydd tros 24 mlynedd yn ôl ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau ers hynny. Byddai caniatáu’r drwydded felly’n cydymffurfio â pholisi’r Cyngor..

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’n anelu i anfon llythyr yn hysbysu’r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00pm a daeth i ben 12:30pm